**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Sharon Davies, Pennaeth Addysg
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cc: Pierre Bernhard-Grout, Swyddog Cyswllt/Polisi
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

Cc: Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

17 Gorffennaf 2023

**Gweithredu diwygiadau addysg (ail Sesiwn gysylltu)**

Annwyl Sharon,

Efallai y gwyddoch fod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cynnal Ymchwiliad dros gyfnod y Senedd i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru a'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd. Rydym yn gwneud hyn drwy gyfres o 'sesiynau cysylltu' i ystyried cynnydd ac unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg a materion wedi'u sefydlu sy'n gysylltiedig â'i gweithredu.

Fel rhan o'n hail ymarferiad cysylltu fe wnaethom ymweld â sawl ysgol, cynhaliwyd grwpiau ffocws gydag ymarferwyr a chynhaliwyd sesiwn graffu gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar 10 Mai 2023. Cawsom hefyd amrywiaeth o dystiolaeth ysgrifenedig gan randdeiliaid.

Manteisiaf ar y cyfle hwn i'ch atgoffa y gallwch gyflwyno'ch barn inni mor aml ag y dymunwch, ar unrhyw adeg, ac am unrhyw fater sy'n ymwneud â diwygio addysg.

## Rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (DECLO)

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddysgu rhagor am gydweithio o dan y system ADY newydd rhwng awdurdodau lleol, ysgolion, a byrddau iechyd. Mae gwelliannau o ran cydweithredu o'r fath yn un o fuddion arfaethedig y system newydd. Mae'r rôl statudol Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg newydd y mae'n ofynnol i fyrddau iechyd lleol ei ddynodi yn rhan allweddol o gyflawni hyn.

Rydym wedi clywed rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd am ysgolion ac awdurdodau lleol yn ei chael hi'n anodd cael mewnbwn y gwasanaethau iechyd, ac weithiau'n gorfod ysgrifennu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) os nad oes mewnbwn a gwybodaeth o'r fath ar gael gan y GIG lle mae angen mawr am hyn.

Byddem yn ddiolchgar o gael eich barn ar hyn, ac i ba raddau y mae'r system ADY newydd wedi arwain at y gwelliannau arfaethedig i gydweithio rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a'r GIG. Er enghraifft, faint o wahaniaeth y mae rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg statudol yn ei wneud ar lawr gwlad?

## Rolau ysgolion ac awdurdodau lleol mewn perthynas â Chynlluniau Datblygu Unigol.

Pwynt arall sydd wedi bod yn rhan o'n gwaith craffu yw'r cydbwysedd rhwng Cynlluniau Datblygu Unigol y mae ysgolion yn gyfrifol amdanynt a'r rhai y mae awdurdodau lleol yn gyfrifol amdanynt. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn datgan y dylai awdurdod lleol fod yn gyfrifol am baratoi a chynnal Cynllun Datblygu Unigol pan na all ysgol wneud hyn yn ddigonol, neu nad yw'n rhesymol iddi wneud hynny.

Mae'r Cod ADY yn nodi rhai meini prawf ar gyfer sut y gellid dehongli hyn, ac mae'n rhagweld y bydd awdurdodau lleol yn sefydlu ac yn cyhoeddi cyfres o egwyddorion y byddant yn eu defnyddio wrth benderfynu a yw'n rhesymol i ysgol yn hytrach na'r awdurdod lleol fod â chyfrifoldeb. Dywedodd y Gweinidog wrthym ar 10 Mai fod tua hanner yr awdurdodau lleol wedi gwneud hyn hyd yma a'i fod yn rhagweld y byddai'r gweddill yn gwneud hyn erbyn diwedd tymor yr haf.

Byddem yn gwerthfawrogi cael eich sylwadau ar sut y mae'r agwedd hon ar y diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gweithio'n ymarferol, pa mor aml y ceir safbwyntiau gwahanol rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol ynghylch pwy ddylai fod yn gyfrifol am Gynlluniau Datblygu Unigol, a diweddariad ar gynnydd awdurdodau lleol o ran cyhoeddi'r gyfres o egwyddorion i roi arweiniad o ran sut y byddant yn gwneud penderfyniadau o'r fath.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r llythyr hwn erbyn 31 Awst 2023 fan bellaf.

Rydym wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, pe baech yn dymuno anfon ymateb ar y cyd. Rydym hefyd wedi anfon copi at Weinidog y Gymraeg ac Addysg.

Yn gywir,

Jayne Bryant

Jayne Bryant AS